## PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## YSTYRIAETH O'R CYFARWYDDYD DRAFFT AR DROSGLWYDDO'R STOC DAI

### Diben

1. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried cynnwys y cyfarwyddyd drafft amgaeëdig (Atodiad 1) ar gyfer yr awdurdodau lleol sy'n ystyried trosglwyddo'u stoc dai sydd â thenantiaid i landlord newydd.

### Crynodeb

2. Mae'r cyfarwyddyd wedi'i anelu at awdurdodau lleol yn bennaf, ond fe fydd hefyd yn ddefnyddiol i eraill sydd â diddordeb, fel grwpiau tenantiaid ac arianwyr. Mae'r cyfarwyddyd yn disgrifio polisïau presennol y Cynulliad ac yn lledaenu'r arfer gorau o ran y materion allweddol yn y broses drosglwyddo.

### Argymhelliad

3. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys y papur hwn, cynnig unrhyw sylwadau cychwynnol a darparu ymateb manwl fel rhan o'r broses ymgynghorol.

### Amseriad

4. Cafodd y cyfarwyddyd drafft ei ryddhau ar gyfer ymgynghoriad yn ddiweddar. Disgwylir i'r ymgynghoriad orffen ar 27 Hydref 2000. Byddai o gymorth pe gallai'r Pwyllgor gyflwyno ei sylwadau i gyd-daro â'r dyddiad hwnnw.

### Cefndir

5. Ym mis Medi, cyhoeddodd y Cynulliad adroddiad y gweithgor ar Gynyddu'r Buddsoddi yn Nhai Llywodraeth Leol trwy Gyllid Preifat. Ar y un pryd, cyhoeddwyd, ar wahân, ddrafft o'r Canllawiau Trosglwyddo Tai. Argymhellodd y gweithgor y dylai'r Cynulliad fabwysiadu'r canllawiau hynny. Roedd y canllawiau yn rhoi cyngor manwl ar faterion yn ymwneud â thenantiaid, ond yn anghyflawn ym meysydd eraill fel canlyniadau ariannol y trosglwyddiad.

6. Mae'r drafft diwygiedig yn darparu cyngor mwy cynhwysfawr ar y broses drosglwyddo.

Bwriedir gwahodd yr awdurdodau i geisio caniatâd amodol i drosglwyddo. Disgrifir yn y canllawiau drafft y meini prawf ar gyfer caniatâd amodol. Hefyd, bwriedir datblygu ‘Siarter Tenantiaid ar Drosglwyddo Stoc’, ar gyfer ei gyhoeddi ar wahân yn dilyn yr ymgynghoriad.

**Cydymffurfio**

7. Bydd y cyfarwyddyd yn cael ei gyhoeddi o dan Adran 40 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a weithredir ar y cyd â’r swyddogaethau o dan Ddeddf Tai 1985. Mae’r pwer i gyhoeddi’r cyfarwyddyd wedi’i ddirprwyo i’r Ysgrifennydd Cynulliad. Nid oes materion o briodoldeb na chysondeb.

8. Nid oes goblygiadau ariannol ychwanegol i’r Cynulliad fel canlyniad i gyhoeddi’r cyfarwyddyd.

**Swyddog Cyswllt**

Howard James – HPF